# Arweiniad atodol ar arolygu'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau

## Haf 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW     neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Rhoi arweiniad i arolygwyr ar gyfer gwerthuso hunanwerthuso

**Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?**

Arolygwyr ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Haf 2025

## Cynnwys


**Arweiniad atodol** ........ **1**

**Cyflwyniad** ........ **2**

Cynllunio cwricwlwm ysgol gyfan ........ 2

**Rhan un – Sut rydym yn arolygu'r cwricwlwm** ........ **4**

Methodoleg ........ 4

**Rhan dau – Beth rydym yn ei arolygu wrth werthuso'r cwricwlwm** ........ **6**

Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu ........ 6

Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad ........ 8

Maes arolygu 3: Arwain a gwella ........ 9

**Rhan tri: Atodiad 1 – Cwestiynau awgrymedig ar gyfer cyfarfodydd** ........ **11**

Cwestiynau ar gyfer uwch arweinwyr ........ 11

Cwestiynau ar gyfer arweinwyr canol ........ 13

## Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy'n llywio gweithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector sy'n cael ei arolygu gan Estyn, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drylwyr wrth ddelio ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn. Hefyd, gallant fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd cadarnhaol i sicrhau bod y staff ym mhob darparwr yn cael y profiad dysgu proffesiynol gorau posibl
- Bydd arolygwyr yn defnyddio dull arolygu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr, cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r ystod gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau yn unig ym mhob darparwr

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad ar arolygu'r cwricwlwm mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau. Wrth arolygu'r agwedd hon ar waith ysgol/UCD, y prif ffocws bob tro ddylai fod yr effaith y mae dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn ei gael ar gynnydd a lles disgyblion.

Mae'r arweiniad hwn wedi'i rannu'n dair adran:

- Mae rhan un yn esbonio ein hymagwedd gyffredinol at adolygu cwricwlwm ysgol. Mae'n ystyried ein hegwyddorion o 'Sut rydym yn arolygu'.
- Mae rhan dau yn cynnig sylwebaeth a chwestiynau i arolygwyr eu hystyried wrth edrych ar bob agwedd ar 'Beth rydym yn ei arolygu'. Mae'r adran hon yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried o ran effaith y cwricwlwm yn gysylltiedig â phob maes arolygu.
- Mae rhan tri yn atodiad sydd â chwestiynau i gefnogi trafodaethau yn ystod arolygiad.

Mae'r adran ar 'Beth rydym yn ei arolygu' yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried o ran dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm a'i effaith ar ddysgu a lles disgyblion. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r adran ar 'Sut rydym yn arolygu', sy'n esbonio'r dulliau y gallai arolygwyr eu defnyddio wrth iddynt werthuso'r cwricwlwm, gan gynnwys ystyried pa mor dda y mae ysgolion/UCDau yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol wrth gynllunio eu cwricwlwm.

Wrth arolygu'r cwricwlwm, mae'n bwysig bod arolygwyr yn rhoi sylw i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys yr elfennau gorfodol sydd wedi'u crynhoi yma. Dylid ystyried arweiniad cenedlaethol ochr yn ochr â'r arweiniad atodol hwn a 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu'. Mae'r arweiniad ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol i'w weld yma.

### Cynllunio cwricwlwm ysgol gyfan

Dywed Llywodraeth Cymru, 'cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam rydyn ni'n ei addysgu.'[i] Bydd dull cydlynol, ysgol gyfan o gynllunio'r cwricwlwm yn sicrhau bod pob disgybl, yn enwedig y rhai y mae tlodi'n cael effaith andwyol arnynt, yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Dylai'r holl waith datblygu cwricwlwm fod â diben clir a bod ag addysgu o ansawdd uchel yn sail iddo. Mae dealltwriaeth glir o ddiben dysgu a pham y mae gwybodaeth, medrau a phrofiadau penodol yn bwysig yn helpu i roi ffocws i gynllunio cynnydd, dysgu ac addysgu.

## Rhan un – Sut rydym yn arolygu'r cwricwlwm

Dylai ein dull ar gyfer arolygu cwricwlwm ysgol ganolbwyntio bob tro ar yr effaith y mae'r cwricwlwm a'r addysgu yn ei gael ar ddysgu a lles disgyblion. Er y dylai arolygwyr roi sylw priodol i unrhyw arweiniad, gan gynnwys arweiniad cenedlaethol, ni ddylent drin hyn fel rhestr wirio i ysgolion/UCDau ei bodloni.

Bydd gwerthusiad arolygwyr o gwricwlwm yr ysgol neu'r UCD yn ystyried gweledigaeth, cyd-destun a sail resymegol y darparwr ar gyfer datblygu ei gwricwlwm yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru. Bydd arolygwyr yn ystyried yr arweiniad statudol sydd ar waith a ph'un a yw darparwyr yn bodloni gofynion gorfodol ai peidio. B-yddwn yn gwerthuso pa mor effeithiol yw cwricwlwm yr ysgol neu'r UCD o ran darparu ystod werthfawr o brofiadau dysgu perthnasol a difyr i wella dysgu a chynnydd pob disgybl a'u cynorthwyo i ennill y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt.

Dylai arolygwyr ystyried effeithiau cadarnhaol neu negyddol trefniadau'r cwricwlwm ar y graddau y mae grwpiau o ddisgyblion yn manteisio ar yr ystod lawn o brofiadau dysgu yn gyffredinol. Er enghraifft, bydd arolygwyr yn ystyried a yw pob un o'r disgyblion o bob oed yn manteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni eu hanghenion ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd yn eu dysgu a'u lles.

### Methodoleg

Wrth arolygu cwricwlwm ysgol neu UCD, dylai arolygwyr ystyried ystod o dystiolaeth i ategu eu gwerthusiadau. Gallai hyn gynnwys:

- Gwaith disgyblion
- Arsylwadau o ddysgu
- Cynllunio neu fapio'r cwricwlwm
- Trafodaethau â disgyblion, staff ac arweinwyr
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn eu dysgu a'u lles, gan gynnwys data perthnasol

Dylai arolygwyr ddechrau eu sgwrs ag arweinwyr ysgol/UCD trwy fod â'r nod o ddeall sut a pham y mae ysgol/UCD wedi dylunio ei chwricwlwm mewn ffordd benodol. Dylent ganolbwyntio ar ba mor dda y mae arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu a pha mor dda y mae staff yn ei deall.

Dylai arolygwyr gyfarfod ag amrywiaeth o staff i ystyried pa mor dda y maent yn deall eu rôl mewn dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm a deall sut mae dysgu proffesiynol wedi'u helpu i wella addysgu a'r cwricwlwm ar draws yr ysgol. Wrth gyfarfod â disgyblion, dylai

arolygwyr drafod pa mor dda y mae disgyblion yn teimlo y mae'r cwricwlwm ac addysgu yn eu helpu i wneud cynnydd. Dylai arolygwyr ystyried gwaith disgyblion a'r cynnydd a wnânt o'u mannau cychwyn.

Wrth arsylwi dysgu, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion pob disgybl ac i ba raddau y mae addysgu o ansawdd uchel yn sail i'r cwricwlwm. Mae addysgu o ansawdd uchel yn allweddol o ran cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol, felly dylid canolbwyntio bob tro ar ansawdd yr addysgu a'r profiadau dysgu i ddisgyblion sy'n deillio o hynny wrth arolygu cwricwlwm ysgol neu UCD. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r addysgu yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau a pha mor dda y mae profiadau allgyrsiol yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu dysgu a'u lles.

# Rhan dau – Beth rydym yn ei arolygu wrth werthuso'r cwricwlwm

## Maes arolygu 1: Addysgu a dysgu

Dywed 'Beth rydym yn ei arolygu' y dylai arolygwyr werthuso:

*Pa mor effeithiol y mae cwricwlwm yr ysgol/UCD, addysgu ac asesu yn cynorthwyo pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, i:*

- *ddysgu a gwneud cynnydd?*
- *ddatblygu eu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth?*
- *ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu?*
- *ddatblygu eu medrau Cymraeg?*

*Dylai arolygwyr werthuso'r gwahaniaeth a wnânt i ddysgu'r disgyblion a pha mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn dylunio a chyflwyno cwricwlwm sydd:*

- *yn darparu ehangder a dyfnder addas o ddysgu ar gyfer disgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad*
- *yn datblygu dealltwriaeth o hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach*
- *yn ysbrydoli disgyblion ac yn codi eu dyheadau*
- *yn galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth cymdeithasau trwy ddod i gysylltiad â hanesion ddoe a heddiw eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, gan gwmpasu cymunedau gwahanol yn ogystal â storïau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn benodol*
- *yn cefnogi datblygiad creadigol ac artistig disgyblion*
- *yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion*
- *yn meithrin agweddau cadarnhaol a pharchus tuag at amrywiaeth (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)*
- *yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd, amrywiaeth perthnasoedd, rhywioldeb gan gynnwys bywyd pobl LHDTC+ ac yn archwilio themâu tegwch, hawliau ac eiriolaeth rhywedd (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)*
- *yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, gan gynnwys eu dealltwriaeth o nodweddion perthnasoedd iach (Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb)*

- *yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw a deall effaith y dewisiadau hyn*

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr wedi cynllunio a chydlynu eu cwricwlwm i sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu pwrpasol ar draws pob maes dysgu a phrofiad a pha mor dda y mae'r addysgu'n sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd cryf. Dylai arolygwyr ystyried:

- A yw cwricwlwm yr ysgol/UCD yn galluogi disgyblion i gael profiadau dysgu perthnasol a difyr ar draws pob maes dysgu a phrofiad?
- A yw'r cwricwlwm yn eu galluogi i gael gwybodaeth ddyfnach?
- A yw'r cwricwlwm yn herio pob disgybl i wneud cynnydd ystyrlon yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau?
- A yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm?
- A yw'r addysgu'n effeithiol o ran ennyn diddordeb disgyblion a chefnogi eu cynnydd?
- I ba raddau y mae athrawon a staff cymorth dysgu yn ystyried anghenion dysgu disgyblion unigol yn llawn wrth gynllunio'r cwricwlwm ac wrth gyflwyno gwersi unigol a chyfresi o wersi?
- Pa mor dda y mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu i lywio cynllunio a datblygu eu cwricwlwm?
- O 14 oed, pan fydd disgyblion yn dewis ystod gulach o bynciau, a ydynt yn cael arlwy digon eang sy'n berthnasol i'w hanghenion?

## Cwricwlwm a chymwysterau 14 i 16 oed

Ar gyfer disgyblion oed uwchradd, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r cwricwlwm ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ennill profiadau dysgu pwrpasol a chymwysterau sy'n bodloni eu hanghenion. Dylai arolygwyr ystyried:

- Pa mor dda y mae'r ysgol/UCD wedi dylunio ei chwricwlwm o 14 oed i roi dewis eang a chytbwys i ddisgyblion?
- Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, medrau a'u dealltwriaeth?
- Pa mor dda y mae'r ysgol/UCD yn sicrhau y gall disgyblion fanteisio ar y cwricwlwm llawn o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 9?

- A yw carfanau cyfan yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau sy'n amhriodol iddynt?
- Pa mor dda y mae'r ysgol/UCD yn cydweithio â phartneriaid i ehangu arlwy'r cwricwlwm?

Pan fydd arolygwyr yn nodi disgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn bodloni eu hanghenion, dylent amlygu hyn yn y sail dystiolaeth. Os yw hyn yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion, dylid nodi hynny yn yr adroddiad.

### Datblygu medrau

Wrth werthuso'r cwricwlwm, dylai arolygwyr roi sylw manwl i effaith y ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol.

Dylai arolygwyr ystyried:

- Pa mor dda y mae athrawon ac arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau'n bwrpasol ac yn gynyddol ar draws y cwricwlwm?
- I ba raddau y mae disgyblion yn cael eu galluogi i adeiladu ar y medrau y maent wedi'u datblygu yn y cyfnodau blaenorol – e.e. o'r ysgol gynradd, yn achos disgyblion sy'n symud i'r ysgol uwchradd?
- Pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wella eu medrau darllen, llafar ac ysgrifennu?
- Pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol?
- Pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol a medrau eraill?
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion â medrau gwannach?

### Maes arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Dywed 'Beth rydym yn ei arolygu':

*Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd:*

- *yn ddiogel a saff*
- *yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd*
- *yn cael eu parchu a'u trin yn deg*

- *yn datblygu medrau arwain ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau*
- *yn cael unrhyw arweiniad neu gymorth ychwanegol sydd eu hangen arnynt yn ymwneud â'r camau nesaf yn eu datblygiad*

Dan faes arolygu 2, yn gysylltiedig â gwerthuso'r cwricwlwm, dylai arolygwyr ystyried y canlynol:

- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn hybu dealltwriaeth dysgwyr o ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys gweithgarwch corfforol, maeth ac iechyd meddwl?
- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn annog parch at amrywiaeth ac yn hybu cynhwysiant a pherthnasoedd cadarnhaol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach?
- Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm yn ennyn diddordeb dysgwyr, gan feithrin ymdeimlad o berthyn a chymhelliant, i fynychu'r ysgol yn rheolaidd?
- I ba raddau y mae'r ysgol/UCD yn defnyddio'r cwricwlwm i feithrin hyder a gwydnwch disgyblion, gan annog cyfranogiad rheolaidd ym mywyd yr ysgol?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol/UCD yn addasu'r cwricwlwm i gynorthwyo dysgwyr sydd â phresenoldeb afreolaidd, gan sicrhau eu bod yn parhau i ymgysylltu ac yn gwneud cynnydd?
- Pa mor effeithiol y mae'r cwricwlwm yn hybu ymddygiad cadarnhaol trwy gynnwys dysgwyr mewn profiadau dysgu ystyrlon, perthnasol ac ysgogol?
- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr ddatblygu medrau arweinyddiaeth, fel gwneud penderfyniadau, cyfathrebu a gwaith tîm?
- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau, fel yr amlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)?
- I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn cael ei lywio gan farn disgyblion a materion cyfredol sydd o ddiddordeb iddynt – e.e. mynd i'r afael â materion a godwyd gan arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) trwy ddarpariaeth ABaCh?

## Maes arolygu 3: Arwain a gwella

Dywed 'Beth rydym yn ei arolygu' y dylai arolygwyr werthuso pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- *yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn perygl o ddeilliannau andwyol, er enghraifft y disgyblion hynny y mae tlodi yn cael effaith arnynt, y rhai ag*

*ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, yn dysgu ac yn gwneud cynnydd*

- *yn datblygu diwylliant, ethos cynhwysol a chyfeiriad strategol sy'n cefnogi cynnydd a lles pob un o'r disgyblion*
- *yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, gan gynnwys mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol*
- *yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gwella ansawdd addysgu a datblygu'r Gymraeg*
- *yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn gwella ansawdd addysgu, yn cefnogi gwelliant ysgol ac yn arfogi pob aelod o staff i gyflawni eu rolau*
- *yn rheoli adnoddau'r ysgol/UCD*

Dan faes arolygu 3, dylai arolygwyr ystyried y canlynol:

- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn sefydlu ac yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu?
- I ba raddau y mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm yn uchelgeisiol, yn eang, yn gytbwys ac yn gynhwysol i bob dysgwr?
- Lle bo'n berthnasol, pa mor dda y mae arweinwyr yn cydweithio â phartneriaid i ehangu neu wella arlwy eu cwricwlwm?
- Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys hybu'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth Cymru?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cefnogi staff i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn hyderus ac yn effeithiol?
- Pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn monitro a gwerthuso gweithredu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig?
- Pa mor effeithiol y mae llywodraethwyr yn herio a chynorthwyo arweinwyr i sicrhau bod y cwricwlwm yn cyd-fynd â'r pedwar diben ac yn hybu cynnydd dysgwyr?
- Sut mae penderfyniadau ac ystyriaethau yn ymwneud â chyllid ac adnoddau yn effeithio ar y cwricwlwm?

# Rhan tri: Atodiad 1 – Cwestiynau awgrymedig ar gyfer cyfarfodydd

## Cwestiynau ar gyfer uwch arweinwyr

### Gweledigaeth a chynllunio

- Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu? Pwy ydych chi wedi ymgynghori â nhw wrth ddatblygu eich gweledigaeth?
- Sut ydych chi'n gwneud penderfyniadau am y cynnwys ac ar ba sail y caiff penderfyniadau eu gwneud?
- Pa mor benodol y mae'r cwricwlwm o ran yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wybod ac yn gallu ei wneud ar ddiwedd bob blwyddyn/cyfnod? I ba raddau y mae dilyniant wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm?
- Sut mae'ch gwaith ag ysgolion/UCDau/partneriaid eraill yn cefnogi eich proses ddylunio? Pa mor dda y mae trefniadau pontio yn cefnogi disgyblion i adeiladu ar eu dysgu blaenorol?
- Pa mor dda ydych chi'n osgoi ailadrodd diangen mewn dysgu o Flwyddyn 6 i Flynyddoedd 7 ac 8?
- Sut ydych chi'n trefnu eich cwricwlwm?
- Pa mor dda y mae'ch cwricwlwm a'ch profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion? Beth am yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth?
- I ba raddau y mae athrawon a staff cymorth dysgu yn ystyried anghenion dysgu disgyblion unigol yn llawn wrth gynllunio'r cwricwlwm ac wrth gyflwyno gwersi unigol a chyfresi o wersi?
- Pa mor dda y mae dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn sicrhau tegwch, cydraddoldeb a hygyrchedd i bawb?
- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn nodi'n glir ac yn darparu cyfleoedd priodol a dilys i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r themâu trawsbynciol gorfodol?
- Sut mae ystyriaethau yn ymwneud ag adnoddau a chyllid yn effeithio ar gynllunio'r cwricwlwm?
- Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer cyflwyno unrhyw gymwysterau newydd?

### Addysgu a dysgu proffesiynol

- Pa mor dda y mae gan athrawon ac arweinwyr ddealltwriaeth gytûn o addysgu effeithiol?

- Pa mor dda y mae dysgu proffesiynol yn cefnogi athrawon i wella ansawdd eu haddysgu yn eu pwnc/maes dysgu a medrau trawsgwricwlaidd, lle bo hynny'n briodol?
- Pa mor dda y mae'r ysgol/UCD yn cefnogi athrawon a staff cymorth nad ydynt yn arbenigwyr?

**Cynnydd a dilyniant**

- Pa mor dda y mae staff yn deall y cynnydd y dylai disgyblion fod yn ei wneud? Pa mor dda y maent yn asesu hyn?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i wneud cynnydd yn eu dysgu?
- Pa mor dda ydych chi'n darparu ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog a'r disgyblion hynny sydd â'r anawsterau mwyaf?
- Pa mor dda ydych chi'n defnyddio gwybodaeth asesu i lunio'ch cwricwlwm?

**Cyd-destun**

- Pa mor dda y mae'ch cwricwlwm yn adlewyrchu natur eich cyd-destun, gan gynnwys natur ieithyddol ac amrywiol Cymru a'r byd ehangach?
- Pa mor dda y mae'r ysgol/UCD yn cynllunio i addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a phobl LHDT+?

**Medrau**

- Pa mor dda ydych chi'n cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn rhai cynyddol?
- Sut ydych chi'n cefnogi disgyblion â medrau gwannach?

**Cymraeg**

- Pa mor dda y mae'r ysgol/UCD yn darparu ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion a'u dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru?
- Sut ydych chi'n hyrwyddo manteisio dysgu Cymraeg a bod yn amlieithog?

**Y cwricwlwm ehangach**

- Sut ydych chi'n sicrhau datblygiad diwylliannol eich disgyblion?

- Sut ydych chi'n cyfoethogi profiadau disgyblion? Pa weithgareddau a chlybiau sy'n cael eu cynnal y tu allan i wersi? Pa ymweliadau/teithiau allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu cynnal a pha gyfraniad y mae'r rhain yn ei wneud at ddysgu disgyblion a'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd?

**Addysg gymdeithasol, foesol, ysbrydol a diwylliannol**

- Sut mae'r cwricwlwm, gan gynnwys y rhaglen ABaCh, yn cynorthwyo i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl o bob cefndir?
- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o grefydd, gwerthoedd a moeseg?
- Sut mae'r ysgol/UCD yn helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, er enghraifft o ran bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, addysg cydberthynas a rhywioldeb a diogelwch ar-lein?
- Sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi lles ac iechyd meddwl disgyblion?
- Sut mae'r cwricwlwm yn helpu disgyblion i ddeall effaith dewisiadau o ran ffordd o fyw ac ymddygiad ar eu hiechyd meddwl a chorfforol a'u lles nawr ac yn y dyfodol?
- Sut ydych chi'n cynllunio cynnwys y ddarpariaeth datblygiad personol? Sut mae hyn yn cael ei arwain?
- Sut ydych chi'n monitro ansawdd a chysondeb darpariaeth?
- Pa ddefnydd a wneir o arbenigwyr allanol i wella darpariaeth?

**Hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

- Sut ydych chi'n gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith eich cwricwlwm?
- Beth yw eich canfyddiadau?
- Sut ydych chi'n defnyddio eich canfyddiadau i gynllunio ar gyfer gwella?
- Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i wella eich cwricwlwm? Pa effaith y mae hyn wedi'i gael?
- Trafodwch enghreifftiau o sut rydych chi wedi cryfhau eich cwricwlwm o ganlyniad i hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn effeithiol?

## Cwestiynau ar gyfer arweinwyr canol

- Sut ydych chi wedi datblygu'r cwricwlwm yn eich pwnc/maes chi?
- Pa mor dda y mae staff yn eich adran/maes yn deall y cynnydd y dylai disgyblion fod yn ei wneud ar adegau gwahanol?

- Sut ydych chi'n gwerthuso effeithiolrwydd eich cwricwlwm?
- Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer cyflwyno unrhyw gymwysterau newydd?

---

[i] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-i-gymru-ymlaen-a-r-daith/#blaenoriaethau-ar-gyfer-datblygu-cwricwlwm-a-dysgu